
Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Adroddiad Monitro Blynyddol 2024–2025

Medi 2025

nmc
Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

Amdanom ni

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 853,000 o nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae wrth wireddu'r weledigaeth hon.

Rydym yma i amddiffyn y cyhoedd trwy gynnal safonau nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol uchel, y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl. Dyna pam rydym yn gwella'r ffordd rydym yn rheoleiddio, yn gwella ein cymorth i gydweithwyr, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, ac yn gweithio gyda'n partneriaid i ddylanwadu ar ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Rydym yn gosod ac yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr ac yn sicrhau ansawdd eu rhaglenni addysg. Rydym yn cynnal uniondeb y gofrestr o'r rhai sy'n gymwys i ymarfer. Ac rydym yn ymchwilio i bryderon am weithwyr proffesiynol - rhywbeth sy'n effeithio ar ychydig iawn o bobl ar ein cofrestr bob blwyddyn.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** gweithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaedd gweithwyr proffesiynol, gan eu helpu i gyflawni ein safonau yn ymarferol ac ymdrin â'r heriau y maent yn eu hwynebu. Rydym yn gweithio ar y cyd fel bod pawb yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â phryderon cyffredin, rhannu ein data, ein mewnwelediad a'n dysgu, i **ddylanwadu** a llywio penderfyniadau a helpu i ysgogi gwelliant mewn iechyd a gofal cymdeithasol i bobl a chymunedau.

Ein hymrwymiad i'r Gymraeg

Yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8), fel y'u nodir gan Gomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nod yr adroddiad monitro blynyddol hwn yw crynhoi ein cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024–31 Mawrth 2025. Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ac ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg ac eraill i fod yn ymatebol ac yn wybodus yn ein dull o ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein gwaith yn y maes hwn a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Llywodraethu ein gwaith iaith Gymraeg

Mae aelodau'r Cyngor, y tîm Gweithredol a'n holl gydweithwyr yn chwarae rhan wrth sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae goruchwyllo'r gwaith hwn yn eistedd o fewn cyfarwyddiaeth Pobl a Diwylliant NMC.

Drwy gydol 2024-2025, rydym wedi cynnull cyfarfod monitro mewnol chwarterol ar Safonau'r Gymraeg i gasglu data ar bob un o'r meysydd cydymffurfio. Mae unrhyw faterion sy'n codi, meysydd i'w gwella neu newidiadau i'w gweithredu hefyd yn cael eu trafod gan y grŵp hwn o gydweithwyr o bob rhan o'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Ein gwaith iaith Gymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf

Mae'n ofynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) ers 6 Rhagfyr 2023.

Ym mis Gorffennaf 2024, cwblhawyd hunanasesiad ar gyfer Comisiynydd y Iaith Gymraeg mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â'r Safonau. Datganwyd lefel uchel o sicrwydd ar gyfer y rhan fwyaf o safonau, gan ein bod wedi gwneud gwaith sylweddol i sicrhau bod pob tîm yn barod i ymateb i geisiadau i ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Mae llawer o'r safonau'n parhau heb eu profi oherwydd nifer isel o geisiadau, fodd bynnag, rydym yn fodlon bod prosesau a chanllawiau ar waith i ymateb yn briodol pe baem yn derbyn cais o'r fath.

Ar gyfer y safonau sy'n ymwneud â gwefannau, fe wnaethom ddatgan lefel ganolog o sicrwydd oherwydd y dull cymesur yr ydym wedi'i gymryd i gyfieithu tudalennau gwefannau. Mae hyn yn golygu, ar rai o'n tudalennau gwe sydd wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg, fod dolenni i dudalennau gwefannau ar gael yn Saesneg yn unig. Yn ein hunanasesiad, fe wnaethom gydnabod bod angen diweddarau llawer o dudalennau gwe'r NMC, a byddwn yn ystyried ar yr adeg honno a oes angen cyfieithu ychwanegol. Rydym wedi cynhyrchu canllawiau i gefnogi gwneud penderfyniadau cydweithwyr yn y maes hwn, gan ganolbwyntio ar y gynulleidfa fwriadedig a phwrrpas deunyddiau, ac a yw'r rhain yn awgrymu bod angen cyfieithu i'r Gymraeg.

Eleni rydym wedi parhau i hyrwyddo Rheoliadau Safonau'r Gymraeg trwy sianeli cyfathrebu mewnol. Er enghraifft, tynnodd darn cyfathrebu o amgylch Dydd Gŵyl Dewi sylw at fanylion y rheoliadau a chyfrifoldebau cydweithwyr yr NMC, yn ogystal â phwysigrwydd pobl sy'n defnyddio gofal iechyd a chymdeithasol yn gallu cael mynediad at wasanaethau gan ddefnyddio'r Gymraeg.

Ym mis Ebrill 2024, cyhoeddwyd ein [cylchlythyr cyhoeddus cyntaf yn y Gymraeg](#)¹. Roedd hyn yn cynnwys diweddariad mewn perthynas â rheoleiddio cymdeithion nyrsio yn y dyfodol yng Nghymru, ac erthygl gan Brif Weithredwr Llais Cymru, Alyson Thomas, am rôl y sefydliad wrth annog a galluogi lleisiau pobl wrth lunio eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Fel rhan o'n hadroddiadau data cofrestru ddwywaith y flwyddyn, cynhyrchwyd cyhoeddiad pwrpasol hefyd ar gyflwr y gofrestr yng Nghymru, sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch faint o bobl sy'n ymuno ac yn gadael y proffesiynau, ble cawsant eu haddysgu, eu nodweddion demograffig, a pham y gadawodd pobl y gofrestr.

1 [Cylchlythyr cyhoeddus Ebrill 2024 — fersiwn Saesneg](#)

Monitro data blynyddol

Mae Safon 66 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ddarparu data yn yr adroddiad blynyddol hwn ar y meysydd canlynol:

1. Nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg
2. Nifer y cydweithwyr sy'n datgan sgiliau iaith Gymraeg a'u lefelau sgiliau
3. Nifer y swyddi gwag neu newydd lle mae angen sgiliau iaith Gymraeg.

Ar gyfer y cyfnod o **1 Ebrill 2024** i **31 Mawrth 2025**, gallwn ddarparu'r data canlynol:

1. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg
2. Roedd tri chydweithiwr wedi datgan sgiliau iaith Gymraeg. Datganodd dau o'r rhain hyfedredd lefel A1 CEFR, a datganodd un hyfedredd lefel A2 CEFR. Dyma'r un nifer o gydweithwyr a ddatganodd sgiliau yn 2023-2024
3. Ni hysbysebwyd unrhyw swyddi gwag na swyddi newydd lle mae angen sgiliau iaith Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaehom gasglu data ychwanegol ynghylch ein darpariaeth iaith Gymraeg:

- Roedd angen cyfieithu 41 darn o waith prosiect corfforaethol i'r Gymraeg
- Fe fu 1,721 o ymweliadau â gwefan Gymraeg y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Fe fu 2,610 o ymweliadau yn 2023-2024.

Camau allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf

Byddwn yn parhau i gasglu data monitro'r iaith Gymraeg drwy gydol y flwyddyn i gynnal goruchwyliaeth o'n cydymffurfiaeth â'r Safonau a nodi unrhyw feysydd i'w gwella.

Fe wnaeth Comisiynydd y Gymraeg roi estyniad i'r NMC i gydymffurfio â Safon 20, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni greu fersiwn Gymraeg o'r broses ymgeisio am gofrestru i'r rhai a hyfforddir yn y DU. Oherwydd y rhaglen ddiwygio rheoleiddio a ragwelir, gofynnwyd am ymestyn y dyddiad cau ar gyfer y safon hon. Rhoddwyd hyn, a chawsom estyniad tan 31 Rhagfyr 2025 i weithredu'r safon hon yn llawn.

Byddwn yn parhau i weithio tuag at weithredu Safon 20 fel rhan o'n ffocws corfforaethol ar foderneiddio gwasanaethau technoleg yr NMC. Gan fod hyn yn dibynnu ar ein hamserlen moderneiddio technoleg, a ddiwygiwyd yn ddiweddar, ni fyddwn yn gallu bodloni amserlen Rhagfyr 2025. Rydym wedi gofyn am estyniad pellach gan Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer gweithredu'r safon hon, ac rydym yn gweithio tuag at gael fersiwn iaith Gymraeg o'n system gofrestru ar waith yn haf 2026. Byddwn yn cynnal cysylltiad â Chomisiynydd y Gymraeg ynghylch ein cynnydd yn y maes hwn, ac rydym yn parhau i gynnig fersiwn ddogfen o'r ffurflen gofrestru i'r rhai sy'n dymuno cofrestru yn y Gymraeg.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod Asesiadau Effaith ar y Iaith Gymraeg (AEIG) pellach yn cael eu cwblhau mewn perthynas â'n prosiectau mawr a'n gwaith datblygu polisi. Mae'r gofyniad i gwblhau AEIG ac ystyried effeithiau ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg wedi'i amlygu mewn fframweithiau rheoli prosiectau, yn ogystal ag mewn templedi ar gyfer papurau i'w cyflwyno i'r Cyngor.

Mae ein blaenoriaethau corfforaethol allweddol ar gyfer 2025-2026 yn cynnwys adolygiad o ddysgu ymarfer, y Cod, ac ailddilysu. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, a fydd yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru. Drwy gydol y gwaith hwn byddwn yn sicrhau ein bod yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn unrhyw ran o'n hymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru ac yn sicrhau bod effeithiau a chyfleoedd ar gyfer y Gymraeg yn cael eu hystyried.

Yr hydref hwn, rydym hefyd yn bwriadu ymgynghori ar rai gwelliannau i'n Rheolau. Wrth i ni gynllunio ar gyfer gweithredu'r newidiadau hyn, byddwn yn ystyried effeithiau ar yr iaith Gymraeg ar gyfer ein newidiadau proses. Bydd ein hymgynghoriad cyhoeddus hefyd yn ceisio barn rhanddeiliaid ar unrhyw effeithiau a chyfleoedd i'r iaith Gymraeg.

Byddwn yn parhau i adolygu'r tudalennau a ddarperir yn y Gymraeg ar wefan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, ac wrth i dudalennau gael eu diweddarau, byddwn yn eu cyfieithu i'r Gymraeg yn ôl yr angen.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i ymgysylltu â fframwaith rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg ac yn edrych ymlaen at gynnig ein barn drwy eu dull cyd-reoleiddio a chwblhau hunanasesiad o'n cydymffurfiaeth â'r Safonau. Byddwn yn parhau i wneud ein gwasanaethau'n hygyrch i siaradwyr Cymraeg a chynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

Gweithgarwch ymgysylltu diweddar yng Nghymru

Yn ogystal â chydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg, rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru.

Yn ystod y cyfnod adrodd o **1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025**, ymunodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ag amrywiaeth o gyfarfodydd a digwyddiadau gyda rhanddeiliaid iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac ymgysylltu â rhanddeiliaid rheoleiddio mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

Er bod ein gwaith gyda rhanddeiliaid iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei gynnal yn bennaf yn Saesneg, mae'r ymgysylltu hwn yn darparu cyfleoedd i ddeall y cyd-destun yn well i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yng Nghymru. Yn benodol, edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda'r rhanddeiliaid hyn i ddeall cyd-destun y Gymraeg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn well, a sut y gellir hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yng Nghymru.

Ymgysylltu traws-reoleiddiol ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg

Ymunodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth â chyfarfodydd rheolaidd Fforwm Cyd-Rheoleiddwyr Safonau'r Gymraeg, lle rydym yn trafod ein dulliau priodol o weithredu'r safonau a'n dealltwriaeth o sut i gymhwyso'r safonau yng nghyd-destun rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal.

Y Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr

Mae Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr (ELS) yr NMC wedi gweld ymgysylltu cadarnhaol cynyddol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu rheolaidd â Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol Cymru, ac uwch arweinyddiaeth mewn byrddau iechyd ledled Cymru.

Fe wnaeth yr ELS gynnal nifer o sesiynau ymgysylltu a dysgu ar draws byrddau iechyd yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys:

- 52 sesiwn ddysgu a ddarparwyd mewn byrddau iechyd yng Nghymru.
- Pum sesiwn ‘Croeso i’r DU’ a ddarparwyd i nyrsys sydd wedi cael addysg ryngwladol a gyflogir gan dri bwrdd iechyd yng Nghymru.
- Datblygu sesiynau pwrpasol a gynlluniwyd i gefnogi diwylliannau gweithle cadarnhaol a hyrwyddo diwylliannau dysgu cadarnhaol mewn bydwreigiaeth mewn un uned famolaeth bwrdd iechyd.
- Cydweithio â Choleg Brenhinol y Nyrsys (RCN) Cymru i gyflwyno Rhaglen Arweinyddiaeth RCN Cymru trwy un sesiwn ar gyfer nyrsys sy’n gweithio mewn bwrdd iechyd yng Nghymru, ac un sesiwn ar gyfer nyrsys sy’n gweithio yn y sector annibynnol yng Nghymru.
- Cyflwyniad yn nigwyddiad Gofal Diogel ac Effeithiol RCN Cymru.

Rhanddeiliaid y sector iechyd a gofal cymdeithasol

Roedd arweinyddiaeth y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cyfarfod yn rheolaidd â Phrif Swyddogion Nyrsio a Phrif Swyddogion Bydwreigiaeth o bob cwr o’r DU ac ymunodd arweinyddiaeth ein Cyfarwyddiaeth Ymarfer Proffesiynol hefyd â chyfarfodydd rheolaidd gan gynnwys â Dirprwy Brif Swyddog Nyrsio Cymru.

Fe wnaeth cydweithwyr Ymarfer Proffesiynol yr NMC fynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau gyda rhanddeiliaid nyrsio a bydwreigiaeth yng Nghymru, gan gynnwys:

- Uwchgynhadledd Gofal Iechyd Trawsreoleiddiol Cymru a gynhelir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) bob chwe mis
- Digwyddiad lansio Gweithlu Nyrsio Gwella Gofal Iechyd ac Addysg Cymru (AaGIC)
- Cinio Rhaglen Arweinyddiaeth a Datblygu Bydwreigiaeth (MLDP) a gynhelir gan Goleg Brenhinol y Bydwreagedd (RCM) Cymru a Llywodraeth Cymru
- Cynhadledd Myfyrwyr Bydwreigiaeth Cymru Gyfan
- Gŵyl Mamolaeth a Bydwreigiaeth Cymru a De-orllewin Lloegr

- Cynhadledd Dydd Gŵyl Dewi Coleg Brenhinol y Bydwragedd Cymru
- Cyfarfodydd Grŵp Datblygu Dogfennau Asesu Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer Cymwysterau Nyrs Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN) ac Ymarferydd Arbenigol (SPQ).

Cymdeithion Nyrsio yng Nghymru

Yn dilyn cytundeb y Cyngor i reoleiddio rôl cymdeithion nyrsio yng Nghymru ym mis Mawrth 2024, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar reoleiddio cymdeithion nyrsio yng Nghymru, yn amodol ar y newidiadau gofynnol i'n deddfwriaeth.

Ymarfer Uwch

Er mwyn cefnogi datblygiad yr Egwyddorion newydd ar gyfer Ymarfer Uwch, cynhaliwyd cyfarfodydd grŵp llywio annibynnol o randdeiliaid ac arbenigwyr allweddol ar draws pedair gwlad y DU, yn ogystal â gweithgor rheoleiddio ar y cyd â rheoleiddwyr proffesiynol a system pedair gwlad eraill.

Er mwyn sicrhau bod yr egwyddorion yn cyd-fynd â fframwaith pob gwlad ei hun ar gyfer Ymarfer Uwch, cynhaliwyd gweithgorau pedair gwlad hefyd gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym mhob un o'r pedair gwlad, gan gynnwys yng Nghymru. Yn Hydref 2024, cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu pellach ar Ymarfer Uwch gydag aelodau'r cyhoedd yng Nghymru, lle cynigiwyd yr opsiwn i ddefnyddio'r Gymraeg.

nmc

Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

This document is also available
in Welsh **on our website**.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael
yn y Gymraeg **ar ein gwefan**.

23 Portland Place,
London W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk

 @nmcuk

 @nmcnews

 The Nursing and Midwifery Council

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362)